# Derbyn deunydd archif ar gyfer cynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â dewis ffilmiau, lluniau llonydd a deunydd sain o archifau ar gyfer cynyrchiadau gan gadw at y cyfyngiadau o ran amser a chostau.

Mae'n ymwneud â chyflwyno eich argymhellion a threfnu cynnwys deunydd mewn cynyrchiadau gan dderbyn caniatâd a thrwyddedau ynghyd â threfnu trosglwyddo deunyddiau i fod ar ffurfiau priodol.

Mae'r Safon hon yn arbennig ar gyfer y rheiny sy'n gyfrifol am dderbyn deunydd archif gan gynnwys cydlynwyr cynyrchiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r angen i ddefnyddio deunydd archif, yn unol â modd amgen o fodloni cyfarwyddiadau cynyrchiadau
2. adnabod y mathau o ddeunyddiau archif sydd eu hangen i fodloni cyfarwyddiadau'r cynyrchiadau gan gadw at gyfyngiadau o ran amser, ffurf, cyllideb a gofynion cyfreithiol y cynyrchiadau
3. chwilio am ffynonellau deunyddiau angenrheidiol er mwyn gweld ydyn nhw'n bodoli ac ydyn nhw ar gael
4. cynnig a chytuno ar ddeunyddiau amgen realistig gyda gwneuthurwyr penderfyniadau pan nad ydy'r deunydd angenrheidiol ar gael
5. gofalu fod ffurf y deunydd rydych yn ei dderbyn yn bodloni anghenion y cynyrchiadau
6. adnabod cyfyngiadau costau, cyfyngiadau, hawlfraint a chyfyngiadau cyfreithiol eraill ynghylch y defnydd o ddeunyddiau
7. derbyn caniatâd i ddefnyddio deunyddiau pan fo'n briodol
8. P8 dewis deunyddiau sy'n bodloni anghenion y cynyrchiadau ac sydd yn bodloni'r cyfyngiadau o ran amser a'r gyllideb
9. cynnig cyfle i weithwyr cynhyrchu perthnasol werthuso deunyddiau wedi'u dewis cyn cytuno ar y dewis terfynol
10. trin a thrafod costau a ffioedd cysylltiedig eraill gyda chyflenwyr
11. archebu dewis terfynol y deunyddiau heb oedi yn y ffurf dechnegol gywir ac mewn pryd i fodloni dyddiadau cau'r cynhyrchiad
12. cadarnhau unrhyw gytundebau trwyddedu yn ysgrifenedig ac yn unol â phrosesau cyfundrefnol
13. rhannu costau, cyfyngiadau ac unrhyw orfodaethau cyfreithiol yn ymwneud â deunyddiau penodol gyda gwneuthurwyr penderfyniadau priodol
14. cadw cofnodion cywir yn unol â phrosesau cyfundrefnol
15. credydu ffynonellau yn unol â'r polisi golygyddol
16. paratoi gwaith papur ategol gyda manylion llawn a chywir am y deunyddiau i'w trosglwyddo
17. trefnu cyflwyno deunydd wedi'i drosglwyddo er mwyn golygu cyfresi erbyn y dyddiadau cau y cytunwyd arnyn nhw
18. adnabod goblygiadau problemau sy'n codi a'u trafod gyda gweithredwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau er mwyn eu datrys

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pam ei fod yn bwysig ichi ragnodi gofynion yn eglur ac yn gryno
2. yr ystyriaethau cyfreithiol a moesegol yn effeithio ar y defnydd o ddeunyddiau archif mewn cynyrchiadau
3. canllawiau golygyddol perthnasol, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chwaeth a gwedduster
4. ffynonellau deunyddiau sydd ar gael a sut i fanteisio arnyn nhw
5. pa opsiynau posib sydd pan fo deunydd penodol ddim ar gael
6. ffurfiau technegol amrywiol a sut i'w hadnabod nhw
7. mathau o hawlfraint a pha fathau o ddeunyddiau maen nhw'n berthnasol iddyn nhw
8. sut i dderbyn trwyddedau a chaniatâd a beth ddylid ymdrin â nhw o ran amodau a thelerau
9. sut gall defnyddio deunydd o ac mewn gwahanol wledydd effeithio ar reoliadau hawlfraint
10. pa fath o gytundebau i'w defnyddio
11. pam ei fod yn bwysig dosbarthu a chofnodi symud deunyddiau
12. y polisi golygyddol ynghylch credydu ffynonellau
13. sut a phryd i roi gwybod i wneuthurwyr penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfyngiadau ar ddeunydd archif
14. problemau posib a sut i'w datrys
15. sut i drosglwyddo deunyddiau'n ddiogel i gyfleusterau ôl gynhyrchu fel bo'r angen
16. cofnodion sydd angen ichi eu cadw gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â symud deunyddiau a manylion hawlfraint

Derbyn deunydd archif ar gyfer cynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSP11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu (Ffilm a Theledu) |
| **Geiriau Allweddol** | Teledu, Ffilm, Archif |